CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAI, 12, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 12, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Janet Edwards, Elfed ap Gomer, John Hughes, Gethin Williams, Carwyn Evans, Llinos Williams, Eirlys Roberts, Gareth Ellis a Peredur Jenkins. Hefyd Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Nid oedd neb yn absennol.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Geraint Rowlands
Is Gadeirydd: Gethin Williams.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Llywodraethwyr Ysgol Llanelltyd (1): Carwyn Evans.
Llywodraethwyr Ysgol Bontddu (1): Gwenan Owen.
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis
Swyddog Ariannol Cyfrifol (i arolygu gweithrediadau ariannol): Elfed ap Gomer

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 14, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 14, 2015

Eitem 5.d. Prisiau 2015/2016 Cyngor Gwynedd at daliadau Mynwentydd.

Penderfynwyd derbyn prisiau newydd awgrymwyd gan Elfed ap Gomer.

6. Materion Ariannol

a. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2014 - Mawrth 31, 2015:

i) Swm am: stampiau + papur + amlenni : £93.92.

Penderfynwyd talu'r swm.

 Llofnod: Dyddiad:

b. Balans yn y banc ar Ebrill 29, 2015: £9,794.80.

c. Derbyniwyd (21/4/2015) £350 oddi wrth Mrs C.A. Palfrey. Taliad at Joan Pauline Millard, Norfolk. Claddu gweddillion o'r Amlosgfa: £175 x 2 = £350. Angladd ar 29/4/2015.

ch. Dogfennau (18 Ebrill 2015) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2015 i Mehefin 01, 2016. Y tâl i'w adnewyddu yw £988.83 (Tal llynedd oedd £988.82).

Penderfynwyd talu'r swm.

dd. Derbyniwyd swm o £3,250.00 (Praesept) oddi wrth Cyngor Gwynedd (27/04/2015).

e. Bil (28/04/15) am £282.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff Mynwent Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r swm.

f. Anfonwyd copi o Gyfrifon y Cyngor 2014-15 i'r aelodau.

a. Diolchwyd i Elfed ap Gomer archwilio'r cyfrifon.

b. Arwyddwyd ffurflen Hacker Young gan Geraint Rowlands ac Elfed ap Gomer.

ff. Bil (8/5/2015) am £35.00 oddi wrth Paul Cook i agor bedd at gladdu gweddillion ar Ebrill 29, 2015.

Penderfynwyd talu'r bil.

7. Mynwent Llanelltyd

a. Penderfynwyd, ar ran Janet Edwards, archwilio plac llechan 'Vaughan' sydd ar wal wrth y gât ac angen ei glanhau.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Mr E.W. Davies mae angen torri coed bach sy'n tyfu o flaen fainc.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

9. Gohebiaeth

a. Derbyniwyd (15/04/2015) dau gopi o Y Llais oddi wrth Un Llais Cymru.

b. Llythyr (20/04/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cwrs Cod Ymddygiad yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar Mai 6, am 6:30yh. Anfonwyd manylion o'r cwrs i'r Aelodau.

c. Llythyr (22/4/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent am roi cyfyngiad cyflymder 30mya o bwynt 57.5m o gyffordd Llanelltyd hyd at 710m i gyfeiriad Bermo. A chyfyngiad cyflymder 40mya o gyffordd Llanelltyd at bwynt 57.5. i gyfeiriad Bermo.

ch. Llythyr (23/4/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2013. O fis Mai 1, 2015 bydd angen Cynghorau Cymuned a Thref rhoi gwybodaeth yn electronig (h.y. ar wefan). Y wybodaeth fydd: am glerc ac aelodau'r cyngor, cofnodion cyfarfodydd y cyngor ac unrhyw ddatganiad archwiliedig o gyfrifon y Cyngor a hysbysiadau cyhoeddus. Mae angen sefydlu cofrestr o fuddiannau aelodau a'i fod ar gael i'r cyhoedd a'i gyhoeddi ar y wefan.

Penderfynwyd i Gethin Williams cael ffurflen mai Cyngor Gwynedd yn ei ddefnyddio ynglŷn â chofrestru buddiannau aelodau.

d. Llythyr (01/05/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau:
Making Effective Grant Applications yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 19/05/2015 am 6:30yh.
Cyllid Llywodraeth Leol yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 9/06/2015 am 6:30yh.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer fod yn bresennol ar gwrs Cyllid Llywodraeth Leol ac oherwydd ni fydd yn cyfarfod misol y Cyngor. Cost y cwrs fydd £35.

dd. Lythyr ((01/05/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yng Nghanolfan Henblas, Stryd Fawr, Y Bala ar 13 Mai 2015 am 7:00yh. Amgáu mae Cofnodion cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dinas Mawddwy, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dolgellau.

e. Llythyr (30/04/2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo ar ffyrdd:
Borthwnog i gyffordd Taicynhaeaf, Bontddu - A496.
Cwm Hirgwm, Bontddu.

f. Llythyr (8 Mai 2015) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Maent yn cynnal sesiwn Rhan 2 o Her i Gwynedd. Bydd yn sesiwn yn trafod gwybodaeth cafwyd yn Rhan 1. Bydd y sesiwn yn Siambr, Swyddfa'r Cyngor Dolgellau ar Mehefin 8. 2015 am 6:00yh.

Penderfynwyd i Geraint Rowlands, Janet Edwards, Eirlys Roberts a Gethin Williams fod yn bresennol.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae'n debyg bydd gwaith gwella ffordd A496 yn Taicynhaeaf a Bontddu yn cael ei wneud wedi i benderfyniad cael ei wneud gan y Cynulliad.

b. Bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cyfarfod yn fuan iawn i roi penderfyniad terfynol ar adolygu ysgolion yr ardal. Wedi'r penderfyniad bydd Corff Cysgodol yn cael ei sefydlu a Pennaeth yr ysgolion yn cael ei benodi i drefnu'r ysgolion.

11. Materion Brys

a. Penderfynwyd i Peredur Jenkins rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd bod ceir yn parcio yn flêr ar y gyffordd sy'n arwain o'r A496 i Neuadd Llanelltyd. Mae perchnogion y ceir yn gweithio yn Swn yr Afon.

b. Penderfynwyd i Peredur Jenkins cael eglurhad gan Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd pryd maent am glirio'r gwastraff sydd wedi ei roi yn y culfan rhwng Pil yr Hengwrt a Hen Bont Llanelltyd.

c. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd i gael copi o fap sy'n dangos tiriogaeth y Cyngor.

d. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymholiadau i aelodau'r Cyngor cael copi o gofnodion pwyllgorau'r ysgolion. Mae'r cyngor yn enwebu aelodau i'r ysgolion.